# Llys Herbert

Lisvane

## Croeso i'ch cartref hyfryd newydd






care UK

11165-183386-Llys-Herbert-Brochure-16pp-200x265mm_cy.indd 1 29/06/2023 15:47

# Dewch i mewn

## Dewch i mewn i Llys Herbert, ein cartref wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, a byddwch yn barod i adael y farn nodweddiadol o ofal ar ôl.

Yn Llys Herbert fe welwch ein tîm ymroddgar, profiadol yn darparu ystod o ofal o ansawdd i bobl hŷn mewn amgylchedd moethus. Rydym yn darparu gofal preswyl, nyrsio a seibiant, hyd at ofal arbenigol i bobl sy'n byw gyda chlefyd Alzheimer a mathau eraill o ddementia. O ddyluniad yr adeilad, i'r aelodau o'n tîm gofal, a hyd yn oed y gweithgareddau rydyn ni'n eu cynllunio - fe welwch ein bod ni'n meddwl yn ofalus er mwyn sicrhau bod eich anwylyd yn mwynhau'r gofal gorau wrth gael y gorau o bob dydd.

### Ymddiried ynom i ofalu

Mae Llys Herbert yn un o nifer o gartrefi gofal o'r radd flaenaf sydd wedi'u hagor ar draws Prydain gan Care UK, un o brif ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol annibynnol y wlad. Yma yn Care UK rydym yn falch o'n henw da am safonau gofal eithriadol, ac yn Llys Herbert mae'r safonau hyn i'w gweld ym mhopeth a wnawn.

Mae ein tîm yn gymwysedig ac yn brofiadol iawn. Yn anad dim mae eu safonau gofal rhagorol yn cael eu tanategu gan lefel o gynhesrwydd a thosturi sydd yn wirioneddol nodedig.

**"Mae ein tîm ymroddedig yn darparu ystod eang o wasanaethau"**








11165-183386-Llys-Herbert-Brochure-16pp-200x265mm_cy.indd 4
29/06/2023 15:47

# Gadewch inni ofalu amdanoch chi

## Rydym yn deall y gall cael anwylyd yn symud i gartref gofal fod yn newid mawr i'r teulu i gyd.

Dyna pam rydyn ni'n darparu cymorth a chyngor os oes angen cefnogaeth emosiynol neu ymarferol arnoch, neu os ydych eisiau drafod ffyrdd o barhau i chwarae rôl allweddol yng ngofal o ddydd i ddydd eich anwylyd.

Rydym yn credu mewn cefnogi pob preswylydd a'u teulu mewn unrhyw ffordd y gallwn, yn enwedig os yw eu hanghenion neu eu galluoedd yn newid dros amser.

Mae aelod dynodedig o'r tîm yn gweithio gyda phob preswylydd, gan gymryd yr amser i ddod i'w hadnabod a deall eu hoff a'u cas bethau er mwyn dylunio cynllun gofal unigryw sydd wedi'i bersonoli i'w union anghenion.

Mae pob aelod o'n tîm gofal yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfoes ag arfer gofal da, gan gynnwys y technegau diweddaraf wrth gefnogi pobl sy'n byw gyda gwahanol fathau o ddementia. Mae gan ein tîm tosturiol y parch mwyaf tuag at breswylwyr ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn eu preifatrwydd, eu hurddas a'u hawl i ddewis personol.

**"Y bobl sydd wir yn gwneud y gwahaniaeth"**

Rydym bob amser yn croesawu ymweliadau gan ffrindiau a theulu sy'n parchu preswylwyr a'u hanghenion, ac yn darparu mynediad ffôn 24/7. Rydym yr un mor awyddus â chi i greu bywyd hapus, boddhaus i'ch anwylyd.





11165-183386-Llys-Herbert-Brochure-16pp-200x265mm_cy.indd 5 29/06/2023 15:47

# Gwneud pob pryd yn wledd

## Mae'r cogyddion yn Llys Herbert yn ymfalchïo mewn gwneud prydau ffres, tymhorol a blasus bob dydd.

Yn fwy na hynny, mae yna bob amser ddewis da o fyrbrydau a chacennau blasus ar gael trwy gydol y dydd - neu'r nos.

### Bwyd da gyda ffrindiau gwych

Mae amser bwyd bob amser yn ddigwyddiad mawr yn Llys Herbert. Maen nhw'n gyfle i fwynhau'r bwydlenni blasus, sydd o hyd yn newid, a luniwyd gan ein cogyddion ymroddedig - ac i sgwrsio gyda ffrindiau neu deulu.

Mae ein cogyddion yn ymfalchïo mewn creu bwydlenni tymhorol amrywiol gan ddefnyddio cynhwysion ffres, a ddewiswyd yn ofalus, gyda ffocws ar ddewis a maeth, ond yn anad dim, blas. Mae gennym ddigon i ddenu'r archwaeth mwyaf cysetlyd ac mae ein cogyddion yn cwrdd â phob preswylydd newydd sy'n ymuno â ni i ddarganfod mwy am eu dewisiadau personol.



Mae ein cogyddion wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion iechyd a maethol pob preswylydd ac i ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion dietegol penodol, gan gynnwys anghenion crefyddol neu ddiwylliannol. Gallwn hefyd ddiwallu anghenion pobl sy'n byw gyda dysffagia - cyflwr sy'n ei gwneud hi'n anodd llyncu - a pharatoi prydau bwyd sydd nid yn unig yn haws i'w llyncu, ond sydd hefyd yn apelio yn weledol.

Mae ein tîm gofal yn sicrhau bod yr holl breswylwyr yn derbyn diodydd a byrbrydau yn rheolaidd. Fodd bynnag, os hoffai preswylwyr baratoi eu diod neu fyrbryd eu hunain, nid yw hynny'n broblem, gall ein timau gofal eu cefnogi i ddefnyddio'r gegin neu'r caffi eu hunain, pryd bynnag y dymunant.

### Profiad bwyta gydag urddas

Mae ein profiad bwyta yn galluogi preswylwyr i gadw eu hannibyniaeth ac mae'n cynnwys yr opsiwn o lestri a chyllyll a ffyrc wedi'u dylunio'n arbennig ar gyfer y rheini ag unrhyw heriau deheurwydd.

Mae amser bwyd hefyd yn gyfle i gymdeithasu ac rydym yn annog preswylwyr i wahodd ffrindiau agos neu berthnasau i fwyta gyda nhw os dymunant. Mae ein cogyddion o hyd yn paratoi rhywbeth arbennig i ddathlu pen-blwydd neu achlysur - mawr neu fach.

**"Mae pawb yn edrych ymlaen at amser bwyd"**







# Trefniadau byw moethus i'ch anwylyd

Trwy'r cartref i gyd fe welwch lawer o fanylion bach wedi'u cynllunio gyda chysur, ymlaciad ac adloniant eich anwylyd mewn golwg.





Mae lolfeydd clyd, cyfarwydd a mannau eistedd lle gallant ymlacio a threulio amser gyda chi.

Mae gan Llys Herbert hefyd mannau gweithgaredd pwrpasol lle gall preswylwyr fwynhau gweithgareddau fel paentio a gwrando ar gerddoriaeth, neu gymryd rhan yn y nifer fawr o weithgareddau dyddiol y mae ein timau gofal wedi'u cynllunio.

### Amgylchedd sy'n gyfeillgar i ddementia

Trwy ddefnyddio'r meddwl a'r ymchwil ddiweddaraf, rydym wedi creu amgylchedd yn Llys Herbert sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn y ffordd orau. Mae hyn yn amlwg nid yn unig yn nyluniad yr adeilad ond yn y dewis o addurniadau, dodrefn a'r dechnoleg ddiweddaraf yr ydym wedi'i gosod.

### Cyferbyniadau a chysur

Rydym hefyd wedi defnyddio cynlluniau lliwiau cyferbyniol o amgylch y cartref. Yn ogystal â chreu awyrgylch golau a lliwgar, mae hyn yn helpu preswylwyr sy'n byw gyda dementia i ddeall ble maen nhw ac i deimlo'n fwy cyfforddus yn eu hamgylchedd.

Mae manylion eraill o amgylch y cartref yn helpu i wneud yr un peth, gan gynnwys blychau atgofion a osodir y tu allan i ystafelloedd preswylwyr. Gellir llenwi'r rhain â gwrthrychau sy'n gyfarwydd iddynt, er mwyn iddynt allu gweld yn syth eu bod wedi dod o hyd i'w hystafell. Mae hefyd yn gyfle gwych i hel atgofion gyda gofalwyr a ffrindiau.



# Creu ymdeimlad o berthyn

## Mae gan Llys Herbert ei sinema, caffi a salon gwallt ei hun - i gyd wedi'i gynllunio i alluogi preswylwyr i barhau i fwynhau ffordd wych o fyw.





Mae rhywbeth bob amser yn digwydd o amgylch y cartref. Y caffi yw'r lle delfrydol i ddal i fyny gydag ymwelwyr dros gappuccino, neu gall y teulu cyfan wylio ffilm gyda'i gilydd yn y sinema.

Bydd preswylwyr sy'n hoffi mynd allan wrth eu bodd â'n lleoliad sy'n agos at siopau a chaffis lleol, ac mae croeso mawr iddynt barhau i ymweld â'r clybiau a'r cymdeithasau lleol y maent yn perthyn iddynt.

### Rhan o'r gymuned

Daw'r gymuned atom yn aml hefyd, gan gynnwys aelodau o glybiau lleol, elusennau, plant ysgol leol a pherfformwyr sy'n galw heibio i ddifyrru preswylwyr. Mae croeso cynnes i bawb.

Credwn hefyd mewn chwarae ein rhan wrth gefnogi pobl yn y gymuned leol a allai fod yn gofalu am anwyliaid gartref. Trwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau am ddim yn y cartref ac yn croesawu ffrindiau, teulu a chylch ehangach y gymuned i ddod draw i ymuno â ni. Cadwch lygad ar ein gwefan neu cysylltwch â ni i ddarganfod pryd rydym yn cynnal y digwyddiad nesaf.

**"Mae yna lawer o fanylion bach o gwmpas y cartref sy'n gwneud ichi wenu"**

# Gwnewch eich hun gartref

## Mae gan y cartref ddyluniad deniadol, cyfoes gyda ffenestri mawr sy'n llenwi'r cartref â golau.

Mae gan bob llawr - neu swît - ei lolfa a man bwyta ei hun i greu naws cymuned fach ac mae'r cartref yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

### Dewis, lle a moethusrwydd

Mae pob un o'n hystafelloedd bwyta a'n lolfeydd wedi'u haddurno â themâu unigol, ac mae pob ystafell wely wedi'i haddurno'n wahanol i roi llawer o ddewis i breswylwyr newydd.

Mae pob un o'n hystafelloedd gwely yn eang ac wedi'u dylunio i'r safonau uchaf, gyda dodrefn a ffitiadau moethus. Mae pawb yn hoffi bod â'u pethau cyfarwydd eu hunain o'u cwmpas. Dyna pam rydym yn annog preswylwyr i ddod ag eitemau personol a darnau o ddodrefn i mewn er mwyn iddyn nhw allu gwneud eu hystafelloedd yn fwy cartrefol a chyfarwydd.

Mae gan bob ystafell wely ystafell wlyb en-suite, teledu sgrin fflat, gwely proffil y gellir ei addasu, system galw'r nyrs 24 awr, ynghyd â phwyntiau ffôn a chysylltiad i'r rhyngrwyd. Mae Wi-Fi hefyd ar gael ym mhob rhan o Lys Herbert i breswylwyr ac ymwelwyr ei ddefnyddio.

### Golygfa hardd

Mae ein cartref wedi'i amgylchynu gan erddi diogel wedi'u tirlunio gyda llwybrau cerdded sy'n addas i gadeiriau olwyn. Mae ein gerddi yn cynnig hafan ddeniadol ar ddiwrnodau cynhesach i fwynhau'r haul, sgwrsio â ffrindiau, mynd am dro neu eistedd ac ymlacio.



11165-183386-Llys-Herbert-Brochure-16pp-200x265mm_cy.indd 13 29/06/2023 15:47



11165-183386-Llys-Herbert-Brochure-16pp-200x265mm_cy.indd 14 29/06/2023 15:47

# Cadw'n brysur a mwynhau bob dydd

## Rydym yn credu mewn gwneud gweithgaredd sylweddol yn rhan hanfodol o ofal, fel y gall preswylwyr fyw bob dydd yn y ffordd y maent ei eisiau.

Mae'r gwaith stori bywyd rydym yn ei wneud gyda phob preswylydd newydd a'u teulu yn golygu ein bod ni'n gwybod eu diddordebau a'u hobïau ac yn deall sut maen nhw'n hoffi gwario bob dydd. Gan adnabod preswylwyr yn dda, rydym wedyn yn gweithio gyda'n gilydd ar gynllun ffordd o fyw sy'n adlewyrchu eu diddordebau unigryw, fel y gallant fwynhau profiadau sy'n teimlo'n ystyrlon ac yn arbennig.

Mae'r tîm ffordd o fyw yn Llys Herbert yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau yn seiliedig ar ddiddordebau a hobïau preswylwyr. Yn ganolog i'n hymagwedd yw bod pob aelod o'r tîm cartref yn ymwneud â darparu momentau ystyrlon i breswylwyr, hyd yn oed os mai sgwrs dros baned ydyw.

### Gofal yn seiliedig ar weithgareddau

Pan ymwelwch â ni, efallai y bydd preswylwyr yn plygu dillad neu'n gosod y bwrdd i ginio, gallai eraill fod yn helpu'r tîm gweinyddol i ffeilio neu fod allan yn yr ardd yn ei gadw'n edrych yn brydferth. Credwn nad yw byw mewn cartref gofal yn rhwystr rhag gwneud y tasgau bob dydd sy'n rhoi ymdeimlad o bwrpas.

### Gweithgareddau a gwibdeithiau

Rydym yn cynllunio ystod o weithgareddau grŵp amrywiol sy'n adlewyrchu diddordebau'r preswylwyr, o sesiynau pobi a cherddoriaeth i gwisiau a dosbarthiadau ymarfer corff wrth eistedd. Rydym hefyd yn deall pwysigrwydd treulio amser un i un o ansawdd gyda phreswylwyr, gan wneud beth bynnag yr hoffent ei wneud. Rydym yn hoffi mynd allan hefyd, ar deithiau yn ystod y dydd i atyniadau lleol, i gael cinio tafarn neu i ddal matinée yn y theatr.



# Rydym yma i helpu

Gobeithiwn eich bod chi'n hoff o'r hyn sydd gan Llys Herbert i'w gynnig ond yn gwerthfawrogi bod yna lawer i feddwl amdano. Cysylltwch â ni i ddarganfod sut y gallwn ni helpu.


**Llys Herbert**
Ffordd Ty-Draw
Lisvane
Caerdydd
Morgannwg
CF14 0AW

**Ffôn: 029 2168 1608**
**careuk.com/llys-herbert**



Meh.23 (183386)